PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan

## Ein hargymhellion ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru



**Mae Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i roi blaenoriaeth i sicrhau bod cymorth eiriolaeth ar gael i fabanod, plant a phobl ifanc, ac i'r rhai sydd mewn sefyllfa i eirioli drostynt.**

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i'r canlynol:**

# Adolygiad o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA)

Mae bron i 10 mlynedd ers cyflwyno model pwysig y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (*National Approach to Statutory Advocacy/NASA*) yn dilyn cydweithio helaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac ADSS Cymru ar ran Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Roedd y datblygiadau hyn yn ymateb i gyfres o adolygiadau ac ymchwiliadau hirfaith i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol (EBA) i ddiogelu plant mewn gofal yn well, gan gynnwys adroddiad Lleisiau Coll Comisiynydd Plant Cymru (2012) ac argymhellion y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar gyfer Eiriolaeth (2014).

Mae elfennau allweddol y NASA yn cynnwys Manyleb Gwasanaeth; Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol; Mecanwaith Ariannu Ystod a Lefel a Thempled Adrodd Perfformiad. Ategir adrannau o'r NASA gan ganllawiau statudol drwy Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 a gyflwynodd y **Cynnig Gweithredol**, ochr yn ochr â threfniadau cofrestru ac arolygu ar gyfer gwasanaethau EBA drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach ac yn dilyn adolygiadau pellach gan bwyllgorau craffu'r Senedd a sylwadau gan aelodau'r Grŵp hwn, mae angen adolygiad annibynnol o weithrediad a chyflawniad y NASA ar frys erbyn hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben o hyd ac yn parhau â'r cwmpas cenedlaethol sy'n rhan greiddiol o'i gynllun a'i fwriad.

Rhaid i adolygiad annibynnol gynnwys yr elfennau canlynol.

# Offeryn Ystod a Lefel (Mecanwaith Ariannu)

Mae'r system bresennol sy'n pennu lefel y cyllid ar gyfer trefniadau eiriolaeth a gomisiynwyd yn un gymhleth ac nid yw'n cael ei dilyn, ac mae angen adolygu'r fformiwla a'r broses ar frys.  Bwriad yr offeryn Ystod a Lefel oedd darparu fformiwla y cytunwyd arni i benderfynu ar gyfrifiad y cyllid ar gyfer darparu EBA sy'n cydredeg â'r boblogaeth profiad gofal, plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant a phlant sy'n gymwys i gael asesiad angen gofal a chymorth. Rhaid i'r adolygiad hwn gael ei gynnal yn annibynnol ac adeiladu ar yr adroddiad wedi'i gomisiynu a luniwyd gan Cordis Bright yn 2023.

# Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol

Nid oes fframwaith comisiynu cenedlaethol ar waith o hyd i roi cyfarwyddyd i fyrddau comisiynu rhanbarthol i gaffael gwasanaethau EBA ar gyfer plant mewn gofal a grwpiau cymwys eraill o blant.  Byddai fframwaith cenedlaethol yn darparu'r eglurder sydd ei angen ynghylch cymhwysedd[1] ac yn sicrhau dull cyson o ymdrin â threfniadau comisiynu ledled Cymru gyfan, gan ganiatáu meddwl hirdymor, cydymffurfiaeth â chaffael a mwy o sefydlogrwydd i'r gweithlu. Dylai'r fframwaith gydredeg â'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i sicrhau bod plant cymwys yn glir ynghylch y safon leiaf y gallant ei disgwyl gan wasanaeth, a bod trefniadau comisiynu yn cydymffurfio â RISCA.

Credwn y dylai'r fframwaith comisiynu gynnwys:

- Cyfanswm cost darparu gwasanaeth yn unol â'r offeryn ystod a lefel
- Contract pum mlynedd
- Bod y sgôr ar gyfer pob cyflwyniad tendr yn seiliedig 100% ar ansawdd
- Gwybodaeth am Asesiad Cydraddoldeb ac Effaith
- Cytundeb o daliadau nad ydynt yn cynnwys ôl-ddyledion
- Adolygiad blynyddol o boblogaeth plant cymwys gan gynnwys plant mewn gofal a phlant sy'n destun cynllun amddiffyn plant, ac amcanestyniadau ar gyfer Cynigion Gweithredol.

[1] *Er enghraifft, plant sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n ddigartref, yn destun trefniadau cyfiawnder ieuenctid neu'n pontio o wasanaethau plant i oedolion (e.e. plant anabl a phlant sy'n cael cymorth iechyd meddwl) ac ati.*

# Cynnig Gweithredol

Gwyddom trwy ein gwasanaethau nad pob plentyn mewn gofal sy'n mynnu ei hawl i Gynnig Gweithredol, er ei fod ar waith ers dros 8 mlynedd. Credwn fod angen gwella'n sylweddol y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gweithredol a'r ddealltwriaeth ohono. Mae gennym bryderon o hyd ynghylch cofnodi a chymhwyso'r Cynnig Gweithredol yn anghyson ar draws awdurdodau lleol a rhanbarthau yng Nghymru.

Dylai adolygiad o weithredu'r Cynnig Gweithredol gynnwys

- datblygu a chyflwyno'n llawn **Dempled Cofnodi Cynnig Gweithredol** cenedlaethol i sicrhau cysondeb o ran casglu data ar draws y 6 rhanbarth a'r 22 ardal awdurdod lleol i gyd. Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o systemau i gasglu data yn cael eu defnyddio ac mae llawer o'r data yn cael ei gasglu â llaw.
- dadansoddiad o'r cyfraddau manteisio a'r rhesymau dros y cyfraddau gwrthod/optio allan/peidio â manteisio gan blant a phobl ifanc cymwys.
- Y broses ar gyfer rhoi gwybod i blentyn cymwys am ei hawl i Gynnig Gweithredol, a'i hawl barhaus trwy gydol ei amser mewn gofal. Dylai hyn gynnwys Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth heb gyfarwyddyd i blant nad allant fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion eu hunain oherwydd diffyg galluedd.
- Adolygiad o'r llwybrau atgyfeirio presennol, a ddylai gynnwys gofyniad i ymgysylltu'n uniongyrchol ac ystyrlon â phlant a phobl ifanc i lywio unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r broses atgyfeirio bresennol.

# Eiriolaeth trwy Ymweliadau Preswyl

Dylai fod gofyniad cyfreithiol i wasanaethau eiriolaeth annibynnol trwy ymweliadau preswyl fod ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal ym mhob lleoliad gofal preswyl. Yn unol â'r cyfleoedd a ddarperir gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 i gael gwared ar elw o'r system ofal, dylai proses y Cynnig Gweithredol gael ei sbarduno cyn ac yn ystod cyfnod pontio plentyn o ddarpariaeth annibynnol i sefydliad nid-er-elw.

# Ochr yn ochr ag adolygiad o'r NASA, rhaid i'r strwythurau ymgysylltu canlynol fod ar waith i gefnogi'r cyflawni.

## Fforwm Cenedlaethol ar Eiriolaeth Plant

Mae angen llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth genedlaethol gadarn ar gyfer gweithredu'r NASA a'r Cynnig Gweithredol gan Lywodraeth Cymru.  Dylid gwella'r fforwm arweinyddiaeth strategol presennol i sicrhau bod digon o gapasiti, adnoddau a phwerau penderfynu ar gael iddo. Dylai'r fforwm gael ei arwain a'i reoli gan uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru gyda threfniadau goruchwylio clir i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau a bod ymgysylltiad llawn gan holl aelodau'r fforwm yn cael ei gynnal. Dylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am eiriolaeth plant fynychu o leiaf bob blwyddyn.

## Ymgysylltu rhwng rhanbarthau, awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth broffesiynol annibynnol (EBA)

Rhaid i bob corff comisiynu rhanbarthol ac awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau ymgysylltu a chydweithio rheolaidd ar waith â darparwyr gwasanaeth EBA. Dylai cyfarfodydd monitro fod yn gyfle i ystyried ffyrdd y gellir hyrwyddo eu gwasanaethau a'r Cynnig Gweithredol yn well i blant cymwys yn ogystal â darparu cyfleoedd hyfforddiant, briffio a datblygiad proffesiynol i weithwyr rheng flaen.

# Materion brys eraill

## Darparu EBA mewn lleoliadau iechyd, iechyd meddwl ac addysg

Prin yw'r cynnydd a wnaed yn ystod tymor hwn y Senedd i alluogi plant a phobl ifanc i gael at gymorth EBA i helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'u hiechyd corfforol a meddyliol neu eu haddysg. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau EBA y tu hwnt i'r rhai ar gyfer plant mewn gofal a phlant cymwys eraill y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mewn perthynas ag iechyd, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi galw am ganllawiau newydd i fyrddau iechyd i helpu i sicrhau bod eiriolaeth annibynnol sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gael i bob plentyn yng Nghymru pe bai ei angen arno. Prin yw'r cynnydd a wnaed i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn er gwaethaf ymdrechion dro ar ôl tro gan y Grŵp hwn i weld darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad.

## Darpariaeth eiriolaeth gyffredinol

Ers ei sefydlu, rydym wedi cefnogi a gwerthfawrogi cynnig cyffredinol Meic Cymru o wybodaeth, cyngor a chymorth eiriolaeth dienw, am ddim i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi cynnig Meic Cymru i'w gymuned o ofalwyr, oedolion y gellir ymddiried ynddynt, ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Byddem yn croesawu gwella ac ehangu'r cynnig hwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae arnynt angen rhywun i glywed eu llais - ar faterion penodol ar adegau penodol mewn lleoliadau penodol, ac ar adegau pontio - yn gallu cael at yr eiriolaeth bersonol sydd ei hangen arnynt, a lle nad yw mathau eraill o eiriolaeth yn addas nac ar gael.

Er bod nifer fach o awdurdodau lleol wedi comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar sail materion i blant a phobl ifanc drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf, nid yw hyn ar gael ledled Cymru o bell ffordd.

# Ymweld Annibynnol

Mae Ymweld Annibynnol (YA) yn darparu gwasanaeth statudol am ddim i blant sy'n derbyn gofal i gefnogi eu lles cyffredinol, ond mae'n dal i ddioddef o ddiffyg hyrwyddo ac ariannu, heb weithdrefnau a llwybrau atgyfeirio clir, ac o ganlyniad nifer isel sy'n manteisio arno o blith poblogaethau plant cymwys yng Nghymru. Mae'r Canllawiau Safonau ac Arfer Da Cenedlaethol[2] (2020) ar gyfer Ymweld Annibynnol yn darparu fframwaith comisiynu sy'n cydredeg â chyfres gynhwysfawr o 14 safon, sy'n darparu enghreifftiau o gymorth ac arfer da i ymarferwyr i'w helpu i asesu'r angen am YA ym mhob cyfarfod Adolygu Gofal. Mae angen rhoi'r canllawiau ar waith ar frys a sicrhau bod gwasanaeth YA ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

# Eiriolaeth rhieni

Er ein bod yn croesawu datblygiadau i sefydlu a chyflwyno rhaglen Cymru gyfan o wasanaethau eiriolaeth rhieni i gefnogi rhieni a gofalwyr y mae eu plant yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, neu wedi ymwneud â hwy, mae angen sicrhau cyllid tymor hwy ar frys ochr yn ochr â fframwaith cenedlaethol a fforwm strategol i bob darparwr gwasanaeth. Mae hyn i gynnwys darparwyr sy'n darparu eiriolaeth rhieni yn rhan o'u darpariaeth EBA statudol a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae cymorth eiriolaeth rhieni yn hanfodol wrth gefnogi rhieni i ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithwyr proffesiynol i ddatrys problemau a helpu i leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal, yn ogystal â chael cyfle i rywun glywed eu lleisiau, eu dymuniadau a'u teimladau.

[2] *Canllawiau Safonau ac Arfer Da Cenedlaethol (2020)*

# Ynglŷn â'r grŵp

Sefydlodd Plant yng Nghymru Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn 2004 yn rhwydwaith proffesiynol i hyrwyddo cydweithio ymhlith ein haelod-sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn yn gweithio tuag at ddarparu llais ar y cyd i'r sector eiriolaeth, datblygu sefyllfaoedd polisi a darparu cyngor i gefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu polisi a deddfwriaeth genedlaethol, a darparu gwasanaethau a gomisiynwyd ar lefel ranbarthol.

Mae Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn cynnwys cynrychiolwyr o NYAS Cymru, TGP Cymru, Voices from Care Cymru, ProMo Cymru, Meic Cymru, SNAP Cymru, Plant yng Nghymru, Gwasanaeth Eirioli Ail Lais, Advocacy Support Cymru, Llywodraeth Cymru (sylwedyddion) a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (sylwedyddion).

https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/advocacy/all-wales-children-and-young-peoples-advocacy-providers-group/

**Cydlynir Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan gan**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Parc Ymchwil Gwyddorau
Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
(SPARC), Caerdydd, CF24 4HQ
029 2034 2434
info@childreninwales.org.uk

@childreninwales.org.uk
@childreninwales
@youngwalesciw
Children in Wales

**childreninwales.org.uk**